# ***CYNGOR GWYNEDD***

## IS-DDEDDFAU YN YMWNEUD Â'R HARBWR YM MHORTHMADOG

Mae Gwynedd trwy arfer y pwerau a roed iddo, mewn perthynas â'r Harbwr ym Mhorthmadog dan Adran 83 Deddf Cymalau Harbyrau Dociau a Phierau 1847 fel y'i cymhwysir gan Orchymyn Adolygu Harbwr Porthmadog 1998 a'r holl bwerau eraill sy'n ei alluogi, trwy hyn i wneud yr is-ddeddfau canlynol i gadw atynt ar gyfer ac er mwyn rheoli a rheoleiddio'r Harbwr ym Mhorthmadog:-

### Dyfynneb a Chychwyn

1. Gellir galw'r is-ddeddfau hyn yn Is-ddeddfau Harbwr Porthmadog 2009 a deuant i rym o fewn un mis i ddyddiad eu cadarnhau gan yr **Ysgrifennydd Gwladol**.

### Diddymu

2. Diddymir trwy hyn yr holl Is-ddeddfau blaenorol a wnaed i reoleiddio'r Harbwr ym Mhorthmadog.

### Dehongli

3. Yn yr is-ddeddfau hyn, oni fydd y cyd-destun yn gofyn yn wahanol:-

Golyga'r "Rheoliadau Gwrthdrawiad" reoliadau i atal gwrthdrawiadau a wnaed dan Adran 85 ac Adran 86 Deddf Llongau Masnach 1995.

Golyga "Y Cyngor" Gyngor Gwynedd mewn perthynas â'r Harbwr.

Golyga "Yr Harbwr" yr Harbwr fel y'i diffinnir yn Adran Ddehongli Gorchymyn Adolygu Harbwr Porthmadog 1998 h.y., mae'n golygu'r ardal y diffinnir ei therfynau mewn coch ar y cynllun a roddwyd ar gadw ac ar y cynllun atodedig.

Golyga "Yr Harbwrfeistr" yr Harbwrfeistr a benodwyd gan y Cyngor ac unrhyw un arall a benodir gan y Cyngor i sicrhau y cedwir at yr is-ddeddfau hyn, a'r sawl a awdurdodwyd i'w helpu.

Golyga 'Iddo' y cyflwr benywaidd yn ogystal â gwrywaidd.

Golyga "Hofrenfad" gerbyd a gynlluniwyd i'w gynnal pan fydd yn symud yn gyfan gwbl neu yn rhannol ag awyr a yrrir o'r cerbyd i ffurfio clustog a bydd ei ffiniau yn cynnwys y tir, dŵr neu arwynebeddau eraill dan y cerbyd.

Golyga "Cerbyd modur" unrhyw gerbyd gydag olwynion neu draciau a yrrir gan ager, neu gan ddulliau mecanyddol, neu drydanol neu gemegol ac mae'n cynnwys hofrenfadau pan fyddant ar y tir.

Golyga "Llestrau neu Lestrau Dŵr Personol" unrhyw lestr neu lestr ar y dŵr sy'n cael ei yrru gan hwyl, propelor, peiriant jet neu unrhyw ddull arall o yrru ac sy'n cael ei lywio un ai:-

(a) gan lyw neu olwyn

(b) gan ddyfais gyswllt ar gyrn llestr dŵr personol (un ai gyda neu heb lyw ar y cefn)

(c) gan y person neu'r personau sydd ar y llestr gan ddefnyddio pwysau eu corff neu gyrff ar gyfer hynny; neu

(c) gan gyfuniad o'r dulliau y cyfeirir atynt yn (a), (b) ac (c) uchod

Golyga "Meistr" berson sy'n rheoli'r llestr neu'r llestr dŵr personol nail ai dan nawdd y Ddeddf  Llongau Manach ai peidio.

Golyga "Llestr Bychan" unrhyw lestr sy'n llai na 24 metr o hyd yn gyfan gwbl fel y'i diffinnir yn Rheoliadau Llongau Masnach (Tunelledd) 1997.

## RHAN 1

## Is-ddeddfau yn ymwneud ag angori llestrau

### Gosod angorfeydd

1. Ni ddylai unrhyw un osod, na pheri gosod yn yr Harbwr, angorfeydd ar gyfer unrhyw lestr ac eithrio gyda chaniatâd ysgrifenedig yr Harbwrfeistr, ac yn unol â thelerau'r caniatâd hwnnw.

### Llestrau i'w hangori ayb yn ôl y cyfarwyddyd

2. Dylai meistr angori llestr neu ei sicrhau yn ddiogel ac yn y fath fodd ac mewn rhan o'r Harbwr y bydd yr Harbwrfeistr o bryd yn ei awdurdodi i wneud hynny.

### Peidio â chlymu llestrau wrth wrthrychau heb awdurdod

3. Oni cheir hawl ysgrifenedig , neu orchymyn gan yr Harbwrfeistr, i wneud hynny ni ddylai meistr glymu'r llestr wrth unrhyw lestr nac angorfa arall.

### Archwilio'r cyfarpar angori

4. Dylai perchennog cyfarpar angori archwilio ei gyfarpar angori bob blwyddyn er mwyn gofalu ei fod mewn cyflwr da, a dylai ddangos tystysgrif i'r perwyl hwn i'r Cyngor y tro nesaf mae'n gwneud cais am ail-ddyrannu angorfa.

**Mynediad ar draws deciau**

5 Dylai meistr llestr sydd ar hyd cei, neu ar hyd unrhyw lestr sydd eisoes wedi angori yn yr Harbwr, ar gais yr Harbwrfeistr, adael i bobl fynd ar draws deciau ei lestr yn ôl ac ymlaen o’r llestr sydd wedi angori wrth ochr ei lestr ef

**Darparu clustogau addas**

6 Dylai meistr a pherchennog y llestr ofalu fod ganddi ddigon o glustogau addas at faint y llestr ac, wrth angori a gadael, neu orwedd yn y cei neu yn erbyn llestrau eraill, dylai’r meistr sicrhau bod clustogau rhwng y llestr a’r cei neu’r llestrau eraill, er mwyn atal difrod i’r cei, y llestrau eraill hynny neu unrhyw eiddo arall.

**Criw digonol**

7 Ac eithrio gyda chaniatâd yr Harbwrfeistr, dylai meistr llestr, bob amser pan fydd ei lestr yn yr Harbwr, ofalu fod modd symud a llywio ei lestr yn ddiogel.

**Defnyddio peiriannau tra bo’r llestr wedi angori**

8 Ni ddylai meistr llestr sydd ar y cei neu wedi ei osod wrth unrhyw ddyfais angori ganiatáu i beiriannau ei lestr gael eu gweithio yn y fath fodd fel ag i beri anaf neu niwed i wely neu lannau’r Harbwr nac i unrhyw lestr neu eiddo arall.

**Colli cebl angor neu bropelor**

9 (1) Dylai meistr llestr sydd wedi llithro neu wahanu oddi wrth, neu golli, unrhyw angor, cadwyn, cebl, propelor neu lyw, cyn gynted ag sy’n rhesymol ymarferol, roi rhybudd i’r Harbwrfeistr o hynny, ac os oes modd, o safle’r angor, cadwyn, cebl neu bropelor, ac os bydd yr Harbwrfeistr yn mynnu hynny, yn ei adfer cyn gynted ag sy’n ymarferol ar draul perchennog y llestr.

(2) Dylai meistr llestr a lithrodd neu a wahanodd oddi wrth angor, cadwyn, cebl, bropelor neu lyw adael bwi i farcio’r lle cyn gynted ag sy’n rhesymol ymarferol.

**RHAN 2**

**Is-ddeddfau yn ymwneud â llywio**

**Symudiadau llestrau**

11 Dylai meistr llestr, ac eithrio llestr bychan os y derbynnir cais gan yr Harbwrfeistr, roi rhybudd ymlaen llaw i'r Harbwrfeistr pan fydd y llestr yn cyrraedd, yn gadael neu fel arall yn symud yn yr Harbwr.

**Llestrau i lywio'n ofalus**

12 Dylai meistr llestr lywio, neu beri llywio, gyda gofal ac yn y fath fodd fel na fydd yn berygl, yn niwsans nac yn boen i unrhyw un sydd ar unrhyw lestr arall, na difrodi unrhyw lestr, angorfa nac eiddo arall yn yr Harbwr neu o'i amgylch.

13 Ac eithrio mewn argyfwng, ni ddylai meistr llestr ganiatáu i'r llestr ddrifftio yn unrhyw ran o'r Harbwr.

14 Dylai meistr unrhyw lestr a suddodd yn yr Harbwr hysbysu'r Harbwrfeistr rhag blaen o hynny ac o safle'r llestr.

15 Ni ddylai unrhyw feistr llestr ganiatáu na goddef iddi gael ei defnyddio ar gyfer pysgota drifft, treillio neu ddull arall o bysgota â rhwyd, nac ar gyfer pysgota â genweiriau yn unrhyw ran o'r Harbwr fel ag i achosi, neu fod yn debygol o achosi rhwystr neu'n berygl i lestrau eraill yn llywio yn yr Harbwr, i bobl yn y llestrau ac i unrhyw un arall sydd â hawl i fod yn yr Harbwr.

16 Ni ddylai meistr awyrlong na hofrenfad beri nac achosi i'w awyrlong na'i hofrenfad ddod i'r Harbwr ac eithrio gyda chaniatâd yr Harbwrfeistr ac yn unol â thelerau'r caniatad hwnnw.

**Cyflymder llestrau**

17 Ni ddylai meistr llestr a yrrir gan bŵer beri na chaniatáu i'w lestr fynd yn gynt na 6 milltir fôr trwy'r dŵr mewn unrhyw ran o'r Harbwr.

**Cynnal regatas ac ati.**

18 Pan gynhelir unrhyw ras, regata neu orymdaith gyhoeddus a awdurdodwyd, dylai meistri llestrau yn yr Harbwr sicrhau eu bod yn cael eu llywio fel nad ydynt yn rhwystro, atal nac ymyrryd â'r ras, regata neu orymdaith nac yn peryglu diogelwch unrhyw un sydd wedi ymgasglu yno, a dylent ufuddhau i bob cyfarwyddyd a roddir gan yr Harbwrfeistr neu unrhyw un arall a awdurdodir o bryd i'w gilydd gan y Cyngor i oruchwylio gweithredu'r is-ddeddf hon.

19 Dylai meistr llestr pŵer sicrhau ei fod yn ildio i gychod hwylio, a chychod rhwyfo.

**Peidio clymu llestru i fwiau hwylio na marcio**

20 Ni ddylai meistr unrhyw lestr glymu ei lestr wrth unrhyw fwi na marc a ddefnyddir at ddibenion llywio, na gorwedd y llestr yn eu herbyn.

**Hysbysu am wrthdrawiadau, etc**

21 Dylai meistr unrhyw lestr:-

(a) a fu mewn gwrthdrawiad ag unrhyw lestr neu eiddo, neu a suddodd neu a aeth i'r lan, neu a aeth yn sownd yn yr Harbwr; neu

(b) oherwydd damwain, tân, diffyg neu reswm arall sydd yn y fath gyflwr fel ag i effeithio ar ei llywio'n ddiogel neu a fyddai'n berygl i lestrau neu eiddo arall; neu

(c) sydd mewn unrhyw ffordd yn rhwystro sianel fordwyo;

cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol, hysbysu'r Harbwrfeistr o'r digwyddiad (a chyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl hynny, roi manylion llawn yn ysgrifenedig i'r Harbwrfeistr), ac os difrodwyd y llestr i'r fath raddau fel yr effeithir ar ei gallu i fynd i'r môr, neu ei bod yn debygol o effeithio ar ei gallu i fynd i'r môr, ni ddylai'r meistr symud y llestr ac eithrio i glirio'r sianel fordwyo neu i'w hangori'n ddiogel a hynny gyda chaniatâd ac yn ôl cyfarwyddyd yr Harbwrfeistr.

**Llestrau sy'n rhydd gyda'r llif**

22 Dylai meistr llestr a ddaw yn rhydd o'i angorfa roi gwybod i'r Harbwrfeistr am hyn gynted a bo modd.

## RHAN 3

**Is-ddeddfau'n ymwneud â halio allan a lansio llestrau**

23 Ni ddylai neb halio allan na lansio llestr yn nherfynau'r Harbwr ac eithrio gyda chaniatâd yr Harbwrfeistr ac yn ôl unrhyw gyfarwyddiadau a roddir ganddo.

24 Ni ddylai unrhyw berchennog yn ymwybodol ganiatáu neu beri i'w lestr gael ei gosod ar dir yn yr harbwr heb ganiatâd ysgrifenedig blaenorol yr Harbwrfeistr.

## RHAN 4

**Is-ddeddfau yn ymwneud â cherbydau modur yn yr Harbwr**

25 Ni ddylai neb yrru cerbyd modur ar gyflymder o fwy na deng milltir yr awr yn nherfynau'r harbwr.

26 Ni ddylai neb, ac eithrio gyda chaniatâd ysgrifenedig blaenorol yr Harbwrfeistr ac yn unol â thelerau'r caniatad hwnnw, ddod â charafán neu ôl-gerbyd o fewn terfynau'r Harbwr ac eithrio ôl-gerbydau neu gerbydau cludo cychod neu gyfarpar ar gyfer y cychod hynny.

27 Ni ddylai neb yn fwriadol beri i gerbyd fynd i mewn neu aros yn nherfynau'r Harbwr ac eithrio gyda chaniatâd yr Harbwrfeistr ac yn unol â Thelerau'r caniatad hwnnw.

28 Dylai pawb sy'n gofalu am gerbyd a ddygir o fewn terfynau'r Harbwr ufuddhau i'r holl gyfarwyddiadau a roddir gan yr Harbwrfeistr a chydymffurfio â phob arwydd, cyfarwyddyd a rhybudd a godir neu a ddangosir ynghylch parcio a symud cerbydau, a thalu unrhyw daliadau a godir gan yr Harbwrfeistr.

29 Ni ddylai neb yrru cerbyd modur mewn unrhyw fan o fewn terfynau'r Harbwr mewn modd a fuasai'n golygu pe na byddai'r yn hofrenfad ac yn cael ei yrru ar y ffordd neu fan cyhoeddus arall o fewn ystyr Deddf Trafnidiaeth y Ffyrdd 1972 y buasai'n euog o drosedd dan Adran 2, Adran 3, Adran 5 neu Adran 6 y Ddeddf honno.

30 Ni ddylai neb, ac eithrio pa fo llestr wedi'i rhwymo wrth angorfa, lwytho na dadlwytho, gosod na gadael unrhyw gerbyd, ôl-gerbyd, nwydd, gêr, cyfarpar ar yr harbwr heb ganiatâd ysgrifenedig yr Harbwrfeistr o flaen llaw

**<u>RHAN 5</u>**

**<u>Is-ddeddfau yn ymwneud â phwerau'r Harbwrfeistr</u>**

31 Gall yr Harbwrfeistr, trwy osod rhybudd mewn man amlwg yn ardal yr Harbwr, neilltuo neu ddynodi unrhyw dir neu waith o fewn yr harbwr sy'n eiddo i'r Cyngor, neu sydd dan ei reolaeth, i'w ddefnyddio'n benodol neu'n rhannol neu i gynnal unrhyw grefft, gweithgaredd, unigolyn, llestr neu ddosbarth o lestrau neu nwyddau ac ni chaiff unrhyw unigolyn na llestr, ac eithrio yn unol â'r neilltuad neu'r dynodiad, wneud defnydd o unrhyw dir neu waith a neilltuwyd neu a ddynodwyd heb ganiatâd yr Harbwrfeistr. Nid oes unrhyw beth o fewn yr Is-ddeddf hon yn awdurdodi gwahardd mordwyo o fewn unrhyw ran o'r Harbwr nac ychwaith yn awdurdodi ymyrryd â hawl tramwy cyhoeddus ar draws llithrfeydd cyhoeddus a cheiau cyhoeddus.

32 <u>Dileu Is-ddeddf 32</u>

**<u>RHAN 6</u>**

**<u>Is-ddeddfau cyffredinol</u>**

33 Ni ddylai neb adael unrhyw gêr ar yr harbwr heb ganiatâd blaenorol yr Harbwrfeistr.

34 Ni ddylai neb yn fwriadol rwystro, atal, ymyrryd â neu darfu ar yr Harbwrfeistr na swyddog, gwas, gweithiwr neu asiant arall y Cyngor wrth ei waith yn yr Harbwr.

35 Ni ddylai neb heb ganiatâd yr Harbwrfeistr, geisio marchogaeth na marchogaeth beic neu dreisicl na defnyddio bwrdd sgrialu na sglefrolio yn nherfynau'r Harbwr.

36 Ni ddylai neb arllwys i'r Harbwr unrhyw wastraff, defnydd na hylif gwenwynig o unrhyw fath yn y byd, a all achosi llygredd, ar yr amod na fydd dim yn yr is-ddeddf hon yn berthnasol i arllwys neu osod unrhyw sylwedd y daw ei waredu neu ei arllwys o dan ddarpariaethau Deddf Llygredd Olew 1971.

37 Ni ddylai neb, o fewn terfynau'r Harbwr, chwarae unrhyw offeryn cerdd neu swnllyd na chwarae, na pheri chwarae, unrhyw radio, uchelseinydd, gramoffon neu offeryn cyffelyb na gwneud sŵn mewn modd a fyddai'n rhesymol debyg o aflonyddu ar unrhyw un arall yn y cyffiniau heb ganiatâd ysgrifenedig yr Harbwrfeistr.

38 Oni cheir awdurdod ysgrifenedig gan yr Harbwrfeistr, ni ddylai neb o fewn terfynau'r Harbwr redeg unrhyw fusnes neu fasnach, na gwerthu neu gynnig gwerthu unrhyw fwyd, diod neu nwyddau na marsiandïaeth o unrhyw fath.

39 Ni ddylai neb chwarae unrhyw gêm dramgwyddus neu beryglus na chynnal unrhyw weithgaredd arall mewn modd a fyddai'n yn atal traffig neu'n peri perygl neu anaf i unrhyw un o fewn terfynau'r Harbwr.

40 Dylai meistr llestr tra bod y llestr yn yr Harbwr sicrhau bod y llestr yn cludo mewn mannau hawdd eu cyrraedd ddigon o ddiffoddyddion tân addas o fath i ddiffodd tanau petrol neu olew neu danau eraill a allai gael eu cynnau gan ddefnyddiau hylosg.

41 <u>Dileu is-ddeddf 41. Nid oes ymrwymiad cyfreithiol i lestr fod yn yswiriedig</u>.

42 (1) Ni ddylai neb gymryd rhan mewn sgïo dŵr nac awyrennu dwr ac eithrio yn y mannau hynny o'r Harbwr y bydd y Cyngor yn eu dynodi ac yn unol ag amodau rhesymol y gellir eu gosod.

(2) Ni ddylai neb farcud-fyrddio, para-farcuta na thynnu parasiwt yn yr harbwr heb ganiatâd ysgrifenedig blaenorol yr Harbwrfeistr, a roddir naill ai'n benodol neu yn gyffredinol, ac yn unol ag amodau rhesymol y gall yr Harbwrfeistr eu gosod.

43 <u>Dileu is-ddeddf 3</u>

**<u>Rhagofalon rhag i nwyddau ayb ddisgyn i ddyfroedd yr Harbwr neu ar eiddo'r Cyngor</u>**

44 Dylai meistr llestr ac unrhyw un sy'n ymwneud â llwytho cargo i lestr neu ei ddadlwytho, ddefnyddio neu beri defnyddio dulliau yn ôl cyfarwyddyd yr Harbwrfeistr i atal unrhyw gargo, paciau, balast neu ddefnydd arall rhag disgyn neu ddianc i ddyfroedd yr Harbwr neu ar eiddo'r Cyngor.

**Gwahardd dympio yn nyfroedd yr Harbwr**

45 Ni ddylai neb roi na thaflu i ddyfroedd yr Harbwr unrhyw ysbwriel na defnydd arall o gwbl, na'i roi yn y fath le fel y gall ddisgyn, chwythu neu ddrifftio i'r harbwr.

**Troseddau**

46 (1) Bydd unrhyw un a fydd yn gweithredu'n groes i neu ddim yn cydymffurfio ag unrhyw rai o ddarpariaethau'r is-ddeddfau, o'u cael yn euog mewn llys ynadon, yn agored i ddirwy o ddim mwy na lefel dau ar y gyfradd safonol.

(2) Lle bo unrhyw un sy'n cyflawni trosedd dan yr is-ddeddfau hyn yn gwneud hynny o achos gweithred neu ddiffyg rhywun arall, bydd y person arall hwnnw hefyd yn euog o'r drosedd a gellir ei g/chyhuddo a'i d/ddyfarnu'n euog o'r drosedd yn rhinwedd y paragraff hwn boed camau cyfreithiol wedi eu cymryd yn erbyn unrhyw un arall neu beidio.

(3) Mewn unrhyw achos am drosedd o dan yr is-ddeddfau hyn bydd yn amddiffyniad i'r sawl a gyhuddir i brofi:

(a) iddo gymryd pob rhagofal rhesymol a bod mor ofalus ag y gallai i osgoi cyflawni'r drosedd honno; neu

(b) fod ganddo esgus rhesymol dros ei weithredu neu dros beidio â gweithredu

(4) Os mewn unrhyw achos fod yr amddiffyniad a ddarperir gan baragraff (3)(a) yr is-ddeddf hon yn cynnwys honiad fod y drosedd wedi ei chyflawni oherwydd gweithred neu ddiffyg gweithred rhywun arall, ni fydd gan y person hawl, heb ganiatâd y llys, i ddibynnu ar yr amddiffyniad hwnnw oni bai ei fod, ymhen cyfnod o saith diwrnod clir cyn y gwrandawiad, wedi cyflwyno i'r erlynydd rybudd ysgrifenedig yn rhoi gwybodaeth fydd yn adnabod neu yn helpu i adnabod y person hwnnw ag a oedd ganddo ar y pryd.

**Eithriadau**

47 Ni fydd is-ddeddfau 13 a 17 yn berthnasol i unrhyw lestr ar unrhyw achlysur pan gaiff ei defnyddio at waith yr heddlu, diffodd tân neu achub o dan amgylchiadau lle buasai cyfyngiad cyflymder yn debyg o rwystro defnyddio'r llestr at y diben y'i defnyddiwyd y tro hwnnw.

48 Ni chymerir fod dim sydd yn yr is-ddeddfau uchod yn ganiatâd, neu yn gweithredu fel caniatad, gan neu ar ran y Goron fel perchennog y blaendraeth a gwely'r môr islaw'r marc penllanw o unrhyw ystâd neu ddiddordeb yn neu hawl dros y blaendraeth neu'r gwely môr hwnnw, ac unrhyw ran ohono, ac ni fydd dim sydd yn neu a wnaed o dan unrhyw un o ddarpariaethau'r is-ddeddfau uchod mewn unrhyw ffordd yn rhagfarnu nac yn effeithio'n niweidiol ar hawl a budd y Goron yn y blaendraeth neu'r gwely'r môr hwnnw, nac yn atal arfer arno unrhyw hawl neu ragfarn gyhoeddus nac yn effeithio'n andwyol ar unrhyw hawl, per neu fraint y gellir yn gyfreithlon ei harfer gan unrhyw un yn a thros hynny.

49 Ni fydd dim yn yr is-ddeddfau hyn yn cyfyngu, atal neu'n ymyrryd â nac yn rhagfarnu arfer unrhyw hawliau neu bwerau statudol a freinir neu y gellir wedi hyn eu breinio yn neu eu harfer gan Dŵr Cymru neu Asiantaeth yr Amgylchedd neu unrhyw Gorff neu Gyfleustod Statudol.

50 Ni fydd dim yn yr is-ddeddfau hyn yn rhagfarnu nac yn tynnu oddi wrth unrhyw hawliau neu freintiau neu hawl neu awdurdod Trinity House neu Sefydliad Brenhinol y Badau Achub.

Rhoddwyd dan Sêl Gyffredin Cyngor Gwynedd ar y **** dydd o **** Dwy Fil a Deg

Gosodwyd SÊL GYFFREDIN CYNGOR GWYNEDD
yma i hyn ym mhresenoldeb:

LLOFNODWR AWDURDODEDIG

Llofnodwyd a seliwyd ar ran ______________________________ar y ****dydd o ******* 2010.

Llofnodwyd